Partneriaeth Cydwasanaethau
Shared Services Partnership

Ein cyf / Our ref:

E-bost/Email: AllWales.Alerts@wales.nhs.uk

Dyddiad / Date: 19th December 2025

**Private & Confidential**

By Email Only:

**<u>WGOS 4 with IP Supplement</u>**

This alert has been cascaded to the following:

**All Wales Ophthalmic Practices**
**All Wales Ophthalmic Key Stakeholders**
**All Wales Ophthalmic Contractors**
**All Wales Ophthalmic Advisors**


Dear WGOS4 provider,

As of today, the WGOS4 claim form has been amended to allow for the 2025 WGOS fee changes.

These allow the claiming of an IP supplement where;

1. IP was used in conjunction to WGOS4, and in doing so a referral to secondary care was prevented. To claim the supplement and
2. You are an approved IP for the Health Board and Practice in which you are making the claim.

The screen shot below highlights the change to the Microsoft form, and for ease of reference we attached the most recent WGOS fee changes.


Outcome *

- Discharge
- WGOS4
- Referral to HES
- **Discharge with IP used to prevent an onward referral to HES -** Please note: this outcome requires you to be a Health Board authorised Independent Prescriber for the shop you are claiming for.
- **WGOS4 with IP used to prevent an onward referral to HES -** Please note: this outcome requires you to be a Health Board authorised Independent Prescriber for the shop you are claiming for.

Back | Next

With best wishes,

Rebecca John / Mike George / Tim Morgan
Arweinydd Clinigol Cenedlaethol GOCC National GOSW Clinical Lead
Gwasanaethau Gofal Sylfaenol Primary Care Services
Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru NHS Wales Shared Services Partnership

Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol Cymru
Wales General Ophthalmic Services

Partneriaeth Cydwasanaethau
Shared Services Partnership


Annwyl ddarparwr WGOS4,

O heddiw ymlaen, mae ffurflen hawlio WGOS4 wedi'i diwygio i ystyried newidiadau ffioedd WGOS 2025. Mae'r rhain yn caniatáu hawlio atodiad Rhagnodwr Annibynnol (IP) lle;

1. Defnyddiwyd IP ar y cyd â WGOS4, a thrwy wneud hynny ataliwyd atgyfeiriad i ofal eilaidd. I hawlio'r atodiad ac

2. Rydych chi'n IP cymeradwy ar gyfer y Bwrdd Iechyd a'r Practis rydych chi'n gwneud yr hawliad ynddo.

Mae'r sgrinlun isod yn tynnu sylw at y newid i'r ffurflen Microsoft, ac er hwylustod rydym wedi atodi'r newidiadau diweddaraf i ffioedd WGOS.


Outcome *

- Discharge
- WGOS4
- Referral to HES
- **Discharge with IP used to prevent an onward referral to HES -** Please note: this outcome requires you to be a Health Board authorised Independent Prescriber for the shop you are claiming for.
- **WGOS4 with IP used to prevent an onward referral to HES -** Please note: this outcome requires you to be a Health Board authorised Independent Prescriber for the shop you are claiming for.

Back Next

With best wishes,

Rebecca John / Mike George / Tim Morgan
Arweinydd Clinigol Cenedlaethol GOCC National GOSW Clinical Lead
Gwasanaethau Gofal Sylfaenol Primary Care Services
Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru NHS Wales Shared Services Partnership

Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol Cymru
Wales General Ophthalmic Services

GIG Cymru NHS Wales
Partneriaeth Cydwasanaethau
Shared Services Partnership

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

**Health & Social Services Group**

Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Sylfaenol, Cymunedol ac Iechyd Meddwl, Byrddau Iechyd Lleol
Cyfarwyddwyr Cyllid, Byrddau Iechyd Lleol
Optometryddion ac Ymarferwyr Meddygol Offthalmig ar restrau Byrddau Iechyd Lleol

11 Tachwedd 2025

Annwyl Gydweithwyr

**TALIADAU I OPTOMETRYDDION SY'N DARPARU GWASANAETHAU OPTOMETREG ESTYNEDIG**

Rydym wedi dod i gytundeb ag Optometreg Cymru o ran y taliadau cymwys i optometryddion sy'n darparu Gwasanaethau Optometreg Estynedig Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol Cymru (GOCC) ar gyfer 2025-26. Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi cymeradwyo'r argymhellion hyn a nodir isod.

Bydd y strwythur taliadau newydd a amlinellir yn Nhabl 1 yn weithredol o 01 Ebrill 2025 ymlaen, ac mae'n ymwneud â'r trefniadau a nodir yng Nghyfarwyddiadau'r Pwyllgor Gwasanaeth Archwilio Iechyd y Llygaid (Cymru) 2016 a Chyfarwyddiadau'r Pwyllgor Gwasanaeth Golwg Gwan (Cymru) 2016, fel y'u diwygiwyd gan Gyfarwyddiadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Gofal Llygaid Cymru) (Cymru) 2023.

**Tabl 1**

| | |
|---|---|
| GOCC 3 (Asesiad Cychwynnol Gwasanaeth Golwg Gwan Cymru gynt)<br><br>GOCC 3 (Adolygiad Blynyddol / Asesiad dilynol Gwasanaeth Golwg Gwan Cymru)<br><br>GOCC 3 Tystysgrif Amhariad ar y Golwg mewn gofal sylfaenol<br><br>GOCC 3 Tystysgrif Amhariad ar y Golwg - Hawliad archwiliad ociwlar yn unig<br><br>GOCC 3 Archwiliad ociwlar ac ardystiad golwg gwan | £ 97.20<br><br>£ 62.96<br><br>£ 76.00<br><br>£ 72.88<br><br>£ 72.88 + £76 = £148.88 |
| GOCC Lefel 4 Retina Meddygol (Hidlo) | £ 98.28 |
| GOCC Lefel 4 Retina Meddygol (Monitro) | £ 98.28 |
| GOCC Lefel 4 Glawcoma (Hidlo) | £ 110.00 |



Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
• Health and Social Services Group
Parc Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff• CF10 3NQ

| | |
|---|---|
| GOCC Lefel 4 Glawcoma (Monitro) | £ 110.00 |
| GOCC 4 gydag Atodiad Presgripsiwn Annibynnol (Wedi'i ddefnyddio i atal cyfeiriad ymlaen i HES) | Atodiad o £10.00 i ffi GOCC 4 berthnasol. |
| GOCC Lefel 5 (Rhagnodi Annibynnol) | £ 135.00 |
| GOCC Lefel 5 (Rhagnodi Annibynnol dilynol) | £ 66.96 |
| GOCC Lefel 5 Glawcoma (Monitro) | £ 135.00 |
| Cartref (1af ac 2il) | £ 42.60 |
| Cartref (3ydd ac wedi hynny) | £ 10.66 |
| Cyflenwi Iechyd Galwedigaethol - gofynion a gwerthoedd manwl fesul Bwrdd Iechyd sydd wedi'u cynnwys o fewn dyraniadau blynyddol. | |
| Casglu gwastraff clinigol (caffael a wneir gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru, ac a fydd yn cael ei gydlynu gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru ar ran y Byrddau Iechyd).<br>Gofynion a gwerthoedd manwl fesul Bwrdd Iechyd sydd wedi'u cynnwys o fewn dyraniadau blynyddol. | |
| Ad-daliadau ar gyfer deunyddiau traul clinigol (i'w cydlynu gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru, ond yn cael eu talu o ddyraniadau'r Byrddau Iechyd).<br>Gofynion a gwerthoedd manwl fesul Bwrdd Iechyd sydd wedi'u cynnwys o fewn dyraniadau blynyddol. | |

Bydd y Byrddau Iechyd yn rheoli'r gost o weithredu'r cynnydd hwn mewn taliadau trwy eu dyraniadau refeniw rheolaidd fel rhan o ragdybiaethau'r setliad codiad cyflog.

Yn gywir



**Paul Casey, Dirprwy Gyfarwyddwr, Gofal Sylfaenol a Chymunedol**

Copïau at: Optometreg Cymru
Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru – Gwasanaethau Gofal Sylfaenol
Sarah O'Sullivan Adams, Pennaeth y Gangen Optometreg ac Awdioleg (LIC)
David O'Sullivan, Prif Gynghorydd Optometrig (LIC)

**Y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

**Health & Social Services Group**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

LHB Directors of Primary, Community and Mental Health Services
LHB Directors of Finance
Optometrists and Ophthalmic Medical Practitioners on LHB lists

11 November 2025

Dear Colleague

**PAYMENTS TO OPTOMETRISTS PROVIDING ENHANCED OPTOMETRY SERVICES**

We have reached agreement with Optometry Wales on the payments eligible to optometrists providing the Wales General Ophthalmic Services (WGOS) Enhanced Optometry Services for 2025-26. The Cabinet Secretary for Health and Social Care has approved these recommendations which are set out below.

The new payment structure outlined in Table 1 becomes operational from 01 April 2025 and relates to the arrangements set out in The Eye Health Examination Service Committee (Wales) Directions 2016 and The Low Vision Service Committee (Wales) Directions 2016, as amended by the National Health Service (Wales Eye Care Services) (Wales) Directions 2023.

**Table 1**

| | |
|---|---|
| WGOS 3 (Previously LVSW Initial Assessment) | £ 97.20 |
| WGOS 3 (LVSW Annual Review / Follow up assessment) | £ 62.96 |
| WGOS 3 CVI in primary care | £ 76.00 |
| WGOS 3 CVI - Ocular examination claim only | £ 72.88 |
| WGOS 3 Ocular examination and low vision certification | £ 72.88 + £76 = £148.88 |
| WGOS Level 4 Medical Retina (Filtering) | £ 98.28 |
| WGOS Level 4 Medical Retina (Monitoring) | £ 98.28 |
| WGOS Level 4 Glaucoma (Filtering) | £ 110.00 |
| WGOS Level 4 Glaucoma (Monitoring) | £ 110.00 |
| WGOS 4 with IP Supplement (Used to prevent an onward referral to HES) | £10.00 supplement to relevant WGOS 4 fee. |
| WGOS Level 5 (Independent Prescribing) | £ 135.00 |
| WGOS Level 5 (Follow up Independent Prescribing) | £ 66.96 |
| WGOS Level 5 Glaucoma (Monitoring) | £ 135.00 |
| Domiciliary (1st and 2nd) | £ 42.60 |
| Domiciliary (3rd and subsequent) | £ 10.66 |



Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
• Health and Social Services Group
Parc Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff • CF10 3NQ

| | |
|---|---|
| Occupational Health Delivery - detailed requirements and values per Health Board included within annual allocation. | |
| Collection of Clinical waste (procurement undertaken by NWSSP and will be co-ordinated by NWSSP on behalf of Health Boards).<br>Detailed requirements and values per Health Board included within annual allocation. | |
| Reimbursement of clinical consumables (to be co-ordinated by NWSSP but paid from Health Board allocations).<br>Detailed requirements and values per Health Board included within annual allocation. | |

Health boards will manage the cost of delivering this increase in payment through their recurrent revenue allocations as part of the pay uplift settlement assumptions.

Yours sincerely

**Paul Casey, Deputy Director, Primary and Community Care**

cc Optometry Wales
NHS Wales Shared Services Partnership – Primary Care Services
Sarah O'Sullivan Adams, Head of Optometry and Audiology Branch (WG)
David O'Sullivan, Chief Optometric Adviser (WG)

**Y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

**Health & Social Services Group**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Sylfaenol, Cymunedol ac Iechyd Meddwl, Byrddau Iechyd Lleol
Cyfarwyddwyr Cyllid, Byrddau Iechyd Lleol
Optometryddion ac Ymarferwyr Meddygol Offthalmig ar restrau Byrddau Iechyd Lleol

11 Tachwedd 2025

Annwyl Gydweithwyr

**FFIOEDD GWASANAETHAU OFFTHALMIG CYFFREDINOL A GWASANAETHAU ARCHWILIO LLYGAID, FFIOEDD YMWELIADAU CARTREF, TALIADAU AR GYFER DATBLYGIAD PROFFESIYNOL PARHAUS, GRANT GORUCHWYLWYR CYN-GOFRESTRU, GRANT I BRACTISAU AR GYFER UWCH DYSTYSGRIF BROFFESIYNOL COLEG YR OPTOMETRYDDION MEWN GLAWCOMA AC ANSAWDD OPTOMETREG.**

**Crynodeb**

1. Rwy'n ysgrifennu atoch i'ch hysbysu am y canlynol:

a) Ffi (Prawf Golwg y GIG) Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol, Ffioedd Gwasanaethau Archwilio Llygaid a ffioedd ymweliadau cartref o 1 Ebrill 2025 ymlaen;
b) Taliadau Cydweithrediadau Optometreg Clwstwr o 1 Ebrill 2025 ymlaen;
c) Uchafswm ffi fesul claf y Gwasanaeth Llygaid mewn Ysbyty o 1 Ebrill 2025 ymlaen;
d) Taliad Datblygiad Proffesiynol Parhaus ar gyfer blwyddyn calendr 2024;
e) Grant sy'n daladwy i oruchwylwyr hyfforddeion cyn-gofrestru;
f) Grant i Bractisau ar gyfer Uwch Dystysgrif Broffesiynol Coleg yr Optometryddion mewn Glawcoma;
g) Ansawdd Optometreg.

2. Byddem yn ddiolchgar pe gallech ddwyn yr wybodaeth hon i sylw'r holl staff sy'n delio â gwasanaethau offthalmig gofal sylfaenol, h.y. optegwyr cyflenwi, optometryddion, ymarferwyr meddygol offthalmig a staff eraill sy'n ymwneud â'r gwasanaeth llygaid mewn ysbyty.

3. Dylai Byrddau Iechyd Lleol sicrhau bod copïau o'r llythyr hwn yn cael eu dosbarthu i'r holl optegwyr cyflenwi, optometryddion ac ymarferwyr meddygol offthalmig yn eu hardaloedd.

4. Gwneir y penderfyniad a'r cyfarwyddydau i Fyrddau Iechyd Lleol sydd wedi'u cynnwys yn y Datganiad o Dâl am Wasanaethau Offthalmig Cyffredinol a Chyfarwyddydau



Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
• Health and Social Services Group
Parc Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff• CF10 3NQ

Ffioedd 2025 drwy arfer pwerau Gweinidogion Cymru yn adrannau 12(3), 76, 77 a 203(9) a (10) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006.

**Ffioedd Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol a Gwasanaethau Archwilio Llygaid / Ffioedd Ymweliadau Cartref y GIG**

5. Mae Ffi (Prawf Golwg y GIG) Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol wedi cynyddu ar gyfer 2025/26 ac mae wedi'i phennu ar £46.20, gan ddod yn weithredol o 1 Ebrill 2025 ymlaen.

6. Mae'r Ffi Gwasanaeth Archwilio Llygaid sy'n weithredol o 1 Ebrill 2025 ymlaen fel a ganlyn - mae GOCC 2 Band 1 yn £72.88; GOCC 2 Band 2 yn £55.18; a GOCC 2 Band 3 yn £27.07.

7. Ar gyfer ymweliadau cartref y GIG a gynhaliwyd ar 1 Ebrill 2025 neu ar ôl hynny, y ffi yw £42.60 ar gyfer y claf cyntaf a'r ail glaf a £10.66 ar gyfer y trydydd claf a chleifion eraill.

8. Rhaid gwneud taliadau yn unol â'r Datganiad o Dâl am Wasanaethau Offthalmig Cyffredinol a Chyfarwyddydau Ffioedd.

**Taliadau Cydweithrediadau Optometreg Clwstwr o 1 Ebrill 2025 ymlaen**

9. Er mwyn sicrhau cysondeb o ran ymgysylltu ledled Cymru, mae Cydweithrediadau Optometreg Clwstwr yn cael eu sefydlu gyda dyletswydd ar bob practis optometreg o fewn y clwstwr i ymgysylltu drwy gymryd rhan yng nghyfarfodydd y Cydweithrediadau Proffesiynol Optometreg. Rhaid i bob practis optometreg fynd i o leiaf 4 cyfarfod y flwyddyn ariannol, a dylid ei ad-dalu am fynd i bob cyfarfod, hyd at uchafswm o bedwar cyfarfod. Rhaid gwneud taliadau yn unol â'r Datganiad o Dâl am Wasanaethau Offthalmig Cyffredinol a Chyfarwyddydau Ffioedd.

**Uchafswm ffi fesul claf o fewn y Gwasanaeth Llygaid mewn Ysbyty**

10. Bydd uchafswm ffioedd y Gwasanaeth Llygaid mewn Ysbyty yn parhau fel a ganlyn: £70.00 ar gyfer lensys golwg sengl; a £113.80 mewn unrhyw achos arall.

**Taliadau ar gyfer Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP)**

11. Mae'r taliadau mewn cysylltiad â datblygiad proffesiynol parhaus yr ymgymerwyd ag ef yn 2024 gan optometryddion, optegwyr cyflenwi ac ymarferwyr meddygol offthalmig heb benodiad meddygol arall (h.y. nad ydynt yn gwneud unrhyw waith arall am dâl oni bai am ddarparu Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol) wedi'u nodi yn y Datganiad o Dâl am Wasanaethau Offthalmig Cyffredinol a Chyfarwyddydau Ffioedd. Bydd canllawiau pellach yn dilyn maes o law gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (NWSSP).

12. Gwneir taliadau mewn cysylltiad â hawliadau a wneir gan optegwyr cyflenwi, optometryddion ac ymarferwyr meddygol offthalmig sy'n ymwneud â hyfforddiant DPP yr ymgymerwyd ag ef yn ystod y flwyddyn rhwng 1 Ionawr a 31 Rhagfyr 2024. Rhaid

gwneud taliadau yn unol â'r Datganiad o Dâl am Wasanaethau Offthalmig Cyffredinol a Chyfarwyddydau Ffioedd.

**Grant goruchwylwyr cyn-gofrestru**

13. Mae'r lwfans a delir i oruchwylwyr hyfforddeion cyn-gofrestru yn aros ar £7,500. Dylid talu hawliadau gan hyfforddwyr sy'n ymgymryd â'r gwaith o oruchwylio hyfforddeion cyn-gofrestru ar 1 Ebrill 2025 neu ar ôl hynny ar y gyfradd hon.

**Grant i Bractisau (Uwch Dystysgrif Broffesiynol mewn Glawcoma a Retina Meddygol GOCC 4)**

14. Er mwyn annog contractwyr i ryddhau optometryddion i gwblhau'r gofynion clinigol ar gyfer Uwch Dystysgrif Broffesiynol y Coleg Optometryddion mewn Glawcoma a Retina Meddygol, caiff practisau optometreg eu had-dalu ar gyfer pob sesiwn glinigol y bydd optometrydd yn mynd iddi at ddibenion cyflawni'r cymhwyster, hyd at uchafswm o ddeugain sesiwn (20 diwrnod). Rhaid gwneud taliadau yn unol â'r Datganiad o Dâl am Wasanaethau Offthalmig Cyffredinol a Chyfarwyddydau Ffioedd.

**Ansawdd Optometreg**

15. Er mwyn gwella trefniadau llywodraethu ymhellach, mae safonau Gwella Ansawdd ffurfiol wedi'u cyflwyno ar gyfer Optometreg yng Nghymru. Mae angen systemau gwella ansawdd cadarn er mwyn mesur a sicrhau canlyniadau o’r radd flaenaf i gleifion yng Nghymru. Fel rhan o'r cynllun, mae'n ofynnol i gontractwyr gwblhau offeryn System Adrodd Genedlaethol y Gweithlu Cymru (WNWRS) lle nodir gweithlu eu practis; llenwi'r templed llywodraethu Ansawdd Optometreg; cymryd rhan mewn, a chwblhau, tri archwiliad bob blwyddyn (archwiliadau clinigol ac anghlinigol); ac ymgymryd â hyfforddiant gorfodol yn ôl yr angen. Rhaid gwneud taliadau yn unol â'r Datganiad o Dâl am Wasanaethau Offthalmig Cyffredinol a Chyfarwyddydau Ffioedd.

**Canllawiau**

16. Bydd copi o'r llythyr hwn a'r Atodiadau yn cael eu rhoi ar wefan NWSSP yn Gwasanaethau Offthalmig - Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru.

17. Os oes gan optometryddion, optegwyr cyflenwi neu ymarferwyr meddygol offthalmig unrhyw ymholiadau, dylent gysylltu â'u Bwrdd Iechyd Lleol neu Wasanaethau Gofal Sylfaenol yn NWSSP.

**Gwerthoedd Talebau Optegol y GIG**

18. Mae gwerthoedd talebau a thaliadau atodol optegol y GIG wedi'u diwygio o 1 Ebrill 2025 ymlaen – ceir cyfeiriad atynt yn Atodiad 1.

Yn gywir

D R Davies

**Rhys Davies**
**Yr Is-adran Gofal Sylfaenol**

Copïau at: Optometreg Cymru
Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru – Gwasanaethau Gofal Sylfaenol
Paul Casey, Dirprwy Gyfarwyddwr Gofal Sylfaenol a Chymunedol, Llywodraeth Cymru (LlC)
Sarah O'Sullivan Adams, Pennaeth y Gangen Optometreg ac Awdioleg (LlC)
David O'Sullivan, Prif Gynghorydd Optometrig (LlC)

**Atodiad 1**

## Gwerthoedd Talebau a Thaliadau Atodol

Mae diweddariadau wedi'u gwneud i dalebau a thaliadau atodol optegol y GIG fel y maent wedi'u nodi yn *Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) 1997*, i ddod yn weithredol o 1 Ebrill 2025 ymlaen. Isod, ceir crynodeb o werthoedd y talebau a'r taliadau atodol ar 1 Ebrill 2025 er gwybodaeth yn unig.

| **Taleb ar gyfer cyflenwi - math o declyn optegol** | | **Gwerth** |
|---|---|---|
| **(1) Math o declyn optegol** | **(2) Cod rhif** | **(3) Gwerth y daleb ar yr wyneb** |
| 1. Sbectol sydd â lensys golwg sengl o nerth sfferig o ddim mwy na 6 dioptr a nerth silindrog o ddim mwy na 2 dioptr. | 1 | £23.26 |
| 2. Sbectol sydd â lensys golwg sengl -<br>(a) o nerth sfferig o fwy na 6 dioptr ond llai na 10 dioptr a nerth silindrog o ddim mwy na 6 dioptr;<br>(b) o nerth sfferig o lai na 10 dioptr a nerth silindrog o fwy na 2 dioptr ond dim mwy na 6 dioptr. | 2 | £44.42 |
| 3. Sbectol sydd â lensys golwg sengl o nerth sfferig o 10 dioptr neu ragor ond dim mwy nag 14 dioptr a nerth silindrog o ddim mwy na 6 dioptr. | 3 | £157.64 |
| 4. Sbectol sydd â lensys golwg sengl -<br>(a) o nerth sfferig o fwy na 14 dioptr ac unrhyw nerth silindrog;<br>(b) o nerth silindrog o fwy na 6 dioptr ac unrhyw nerth sfferig. | 4 | £280.69 |
| 5. Sbectol sydd â lensys golwg sengl -<br>(a) o nerth sfferig o fwy na 20 dioptr ac unrhyw nerth silindrog;<br>(b) o nerth silindrog o fwy na 10 dioptr ac unrhyw nerth sfferig. | 5 | £383.41 |
| 6. Sbectol sydd â lensys amlffocal o nerth sfferig o ddim mwy na 6 dioptr a nerth silindrog o ddim mwy na 2 dioptr. | 6 | £42.30 |
| 7. Sbectol sydd â lensys amlffocal - | 7 | £81.44 |

| | | |
|---|---|---|
| (a) o nerth sfferig o fwy na 6 dioptr ond llai na 10 dioptr a nerth silindrog o ddim mwy na 6 dioptr;<br>(b) o nerth sfferig o lai na 10 dioptr ond nerth silindrog o fwy na 2 dioptr ond dim mwy na 6 dioptr. | | |
| 8. Sbectol sydd â lensys amlffocal o nerth sfferig o 10 dioptr neu ragor ond dim mwy na 14 dioptr a nerth silindrog o ddim mwy na 6 dioptr | 8 | £304.08 |
| 9. Sbectol sydd â lensys amlffocal a reolir gan brism o unrhyw nerth neu sydd â lensys amlffocal -<br>(a) o nerth sfferig o fwy na 14 dioptr ac unrhyw nerth silindrog;<br>(b) o nerth silindrog o fwy na 6 dioptr ac unrhyw nerth sfferig. | 9 | £393.58 |
| 10. Sbectol sydd â lensys amlffocal -<br>(a) o nerth sfferig o fwy na 20 dioptr ac unrhyw nerth silindrog;<br>(b) o nerth silindrog o fwy na 10 dioptr ac unrhyw nerth sfferig. | 10 | £539.01 |
| 11. Sbectol nad yw unrhyw un o'r paragraffau o 1 i 10 yn berthnasol iddi y rhoddir presgripsiwn ar ei chyfer o ganlyniad i brawf golwg gan Fwrdd Iechyd Lleol ac eithrio o dan drefniant o dan Ran 6 o Ddeddf 2006. | 11 | £539.01 |
| 12. Lensys cyswllt y rhoddir presgripsiwn ar eu cyfer o ganlyniad i brawf golwg gan Fwrdd Iechyd Lleol ac eithrio o dan drefniant o dan Ran 6 o Ddeddf 2006. | 12 | £57.97 |

| **Taleb Lensys Cymhleth** | **Gwerth o 1 Ebrill 2025 ymlaen** |
|---|---|
| Golwg Sengl | £15.44 |
| Deuffocal | £39.56 |

**Arlliw / Lensys Ffotocromaidd**
**Tâl Atodol (fesul lens)**

| | |
|---|---|
| Golwg Sengl | £2.11 |
| Deuffocal | £2.64 |

**Prism (fesul lens)**

| | |
|---|---|
| Golwg Sengl | £12.68 |
| Deuffocal | £14.80 |
| Tâl Atodol am Brism Cymhleth | Fesul achos – ar gais i Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru |

**Tâl Atodol am Sbectol Fach**

| | |
|---|---|
| Tâl atodol | £67.90 |
| **Tâl Atodol i Blant** | £15.86 |

Pan fydd yr unigolyn cymwys o dan 19 oed yn derbyn taleb 1 ac mae angen cael lensys nad oes cyflenwad ohonynt yn cael eu cadw wrth gefn er mwyn gwella ymddangosiad y teclyn optegol (y defnyddir y daleb ar ei gyfer), sydd â lensys golwg sengl o nerth sfferig o rhwng 4 a 6 dioptr a nerth silindrog o ddim mwy na 2 dioptr.

**<u>Taleb ar gyfer Costau Trwsio neu Newid o 1 Ebrill 2025 ymlaen</u>**

| **Rhif y Daleb** | **1 lens** | **2 lens** | **Blaen y ffrâm** | **Ochr y ffrâm** | **Y ffrâm gyfan** |
|---|---|---|---|---|---|
| **1** | 6.34 | 12.68 | 8.99 | 5.29 | 10.58 |
| **2** | 16.92 | 33.84 | 8.99 | 5.29 | 10.58 |
| **3** | 73.73 | 147.47 | 8.99 | 5.29 | 10.58 |
| **4** | 135.26 | 270.52 | 8.99 | 5.29 | 10.58 |
| **5** | 186.62 | 373.24 | 8.99 | 5.29 | 10.58 |
| **6** | 15.87 | 31.74 | 8.99 | 5.29 | 10.58 |
| **7** | 35.43 | 70.86 | 8.99 | 5.29 | 10.58 |
| **8** | 146.96 | 293.91 | 8.99 | 5.29 | 10.58 |
| **9** | 191.70 | 383.41 | 8.99 | 5.29 | 10.58 |
| **10** | 264.42 | 528.84 | 8.99 | 5.29 | 10.58 |
| **11** | 264.42 | 528.84 | 8.99 | 5.29 | 10.58 |

**Noder:**

19. Pan fydd taliad atodol ar gyfer sbectol fach neu nodweddion wyneb arbennig yn berthnasol, mae'r swm sy'n rhaid ei dalu ar gyfer trwsio fel a ganlyn:

Blaen y ffrâm: £64.42
Ochr y ffrâm: £32.65
Y ffrâm gyfan: £68.05

20. Pan fydd teclyn optegol yn cael ei drwsio am fwy nag un rheswm, wrth gyfrifo'r cyfanswm sydd i'w dalu, ni ddylai'r elfen o'r daleb sy'n ymwneud â thrwsio'r ffrâm fod yn fwy na £14.10.

**Y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

**Health & Social Services Group**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

LHB Directors of Primary, Community and Mental Health Services
LHB Directors of Finance
Optometrists and Ophthalmic Medical Practitioners on LHB lists

11 November 2025

Dear Colleague

**GENERAL OPHTHALMIC SERVICES AND EYE EXAMINATION SERVICES FEES, DOMICILIARY FEES, PAYMENTS FOR CONTINUED PROFESSIONAL DEVELOPMENT, PRE-REGISTRATION SUPERVISORS GRANT, PRACTICE GRANT FOR COLLEGE OF OPTOMETRISTS PROFESSIONAL HIGHER CERTIFICATE IN GLAUCOMA AND QUALITY FOR OPTOMETRY.**

**Summary**

1. I am writing to notify you of the:

a) General Ophthalmic Services (NHS Sight Test) Fee, Eye Examination Services Fees and domiciliary fees from 1 April 2025;
b) Optometry Collaborative Cluster Payments from 1 April 2025;
c) Hospital Eye Service maximum patient charge from 1 April 2025;
d) Continued Professional Development payment for 2024 calendar year; and
e) Grant payable to supervisors of pre-registration trainees;
f) Practice Grant for College of Optometrists, Higher Professional Certificate in Glaucoma;
g) Quality for Optometry.

2. Please could you bring this information to the attention of all staff dealing with primary care ophthalmic services, i.e. dispensing opticians, optometrists, ophthalmic medical practitioners and other staff concerned with the hospital eye service.

3. Local Health Boards should ensure that copies of this letter are distributed to all dispensing opticians, optometrists and ophthalmic medical practitioners in their areas.

4. The determination and directions to Local Health Boards contained in the Statement of General Ophthalmic Services Remuneration and Fee Directions 2025 are made in the exercise of the Welsh Minister's powers in sections 12(3), 76, 77 and 203(9) and (10) of the National Health Service (Wales) Act 2006.

**General Ophthalmic Services and Eye Examination Services Fees / NHS Domiciliary Fee**

5. General Ophthalmic Services (NHS Sight Test) Fee has increased for 2025/26 and is set at £46.20, effective from 1 April 2025.

6. The Eye Examination Service Fee effective from 1 April 2025 is – for WGOS 2 Band 1 set at £72.88; WGOS 2 Band 2 set at £55.18; and WGOS 2 Band 3 set at £27.07.

7. For NHS domiciliary visits carried out on or after 1 April 2025, the fee is £42.60 for the first and second patients and £10.66 for third and subsequent patients.

8. Payments must be made in accordance with the Statement of General Ophthalmic Services Remuneration and Fee Directions.

**Optometry Collaborative Cluster Payments from 1 April 2025**

9. To ensure consistency of engagement across Wales, Optometry Cluster Collaboratives are being established with a duty for each optometry practice within the cluster to engage through participating in the Optometry Professional Collaborative meetings. Each optometry practice must attend at least 4 meetings per financial year and is to be reimbursed for attending each meeting, up to a maximum of four meetings. Payments must be made in accordance with the Statement of General Ophthalmic Services Remuneration and Fee Directions.

**Maximum Patient Charge within the Hospital Eye Service**

10. The Hospital Eye Service maximum charges will continue to be: £70.00 for single vision lenses; and £113.80 in any other case.

**Payments for Continued Professional Development (CPD)**

11. The payments in respect of continuing professional development undertaken in 2024 by optometrists, dispensing opticians and ophthalmic medical practitioners without another medical appointment (i.e. who do no other remunerative work but Primary Ophthalmic Services) are set out in the Statement of General Ophthalmic Services Remuneration and Fee Directions. Further guidance will follow in due course from NHS Wales Shared Services Partnership (NWSSP).

12. Payments will be made in respect of claims made by dispensing opticians, optometrists and ophthalmic medical practitioners relating to CPD training undertaken during the year from 1 January to 31 December 2024. Payments must be made in accordance with the Statement of General Ophthalmic Services Remuneration and Fee Directions.

**Pre-registration supervisors grant**

13. The allowance paid to supervisors of pre-registration trainees remains at £7,500. Claims from trainers taking on pre-registration trainees on or after 1 April 2025 should be paid at this rate.

**Practice Grant (WGOS 4 Higher Professional Certificate in Glaucoma and Medical Retina)**

14. To encourage contractors to release optometrists to complete the clinical requirements for the College of Optometrists Professional Higher Certificate in Glaucoma and Professional Higher Certificate in Medical Retina, optometry practices will be reimbursed for each clinical session an optometrist attends for the purposes of

attaining the qualification, up to a maximum of forty sessions (20 days). Payments must be made in accordance with the Statement of General Ophthalmic Services Remuneration and Fee Directions.

**Quality for Optometry**

15. To further improve governance arrangements formal Quality Improvement standards have been introduced for Optometry in Wales. Robust quality improvement systems are necessary to measure and ensure the highest quality outcomes for patients in Wales. As part of the scheme contractors are required to complete a National Workforce Reporting tool outlining the workforce in their practice; make a return of the Quality for Optometry (QO) governance template; participate in and complete three audits (clinical and non-clinical) annually; and undertake mandatory training as required. Payments must be made in accordance with the Statement of General Ophthalmic Services Remuneration and Fee Directions.

**Guidance**

16. A copy of this letter and the Annexes will be placed on the NWSSP website at Ophthalmic Services - NHS Wales Shared Services Partnership.

17. If optometrists, dispensing opticians or ophthalmic medical practitioners have any queries then they should contact their Local Health Board or Primary Care Services at NWSSP.

**NHS Optical Voucher Values**

18. NHS optical voucher values and supplements have been amended from 1 April 2025 – Annex 1 refers.

Yours sincerely

**Rhys Davies**
**Primary Care Division**

cc Optometry Wales
NHS Wales Shared Services Partnership – Primary Care Services
Paul Casey, Deputy Director for Primary & Community Care, Welsh Government (WG)
Sarah O'Sullivan Adams, Head of Optometry and Audiology Branch (WG)
David O'Sullivan, Chief Optometric Adviser (WG)

**Annex 1**

## Voucher Values and Supplements

Updates have been made to the NHS optical vouchers and supplements set out in the *National Health Service (Optical Charges and Payments) Regulations 1997* with effect from 1 April 2025. A summary of the voucher values and supplements as of 1 April 2025 is set out below for information only.

| **Voucher for Supply - Type of optical appliance** | | **Value** |
|---|---|---|
| **(1) Type of optical appliance** | **(2) Number code** | **(3) Face value of voucher** |
| 1. Glasses with single vision lenses of a spherical power of not more than 6 dioptres with a cylindrical power of not more than 2 dioptres. | 1 | £23.26 |
| 2. Glasses with single vision lenses- (a) of a spherical power of more than 6 dioptres but less than 10 dioptres with a cylindrical power of not more than 6 dioptres; (b) of a spherical power of less than 10 dioptres with a cylindrical power of more than 2 dioptres but not more than 6 dioptres. | 2 | £44.42 |
| 3. Glasses with single vision lenses of a spherical power of 10 or more dioptres but not more than 14 dioptres with a cylindrical power of not more than 6 dioptres. | 3 | £157.64 |
| 4. Glasses with single vision lenses- (a) of a spherical power of more than 14 dioptres with any cylindrical power; (b) of a cylindrical power of more than 6 dioptres with any spherical power. | 4 | £280.69 |
| 5. Glasses with single vision lenses- (a) of a spherical power of more than 20 dioptres with any cylindrical power; (b) of a cylindrical power of more than 10 dioptres with any spherical power. | 5 | £383.41 |
| 6. Glasses with multifocal lenses of a spherical power of not more than 6 | 6 | £42.30 |

| | | |
|---|---|---|
| dioptres with a cylindrical power of not more than 2 dioptres. | | |
| 7. Glasses with multifocal lenses-<br>(a) of a spherical power of more than 6 dioptres but less than 10 dioptres with a cylindrical power of not more than 6 dioptres;<br>(b) of a spherical power less than 10 dioptres but with a cylindrical power of more than 2 dioptres but not more than 6 dioptres. | 7 | £81.44 |
| 8. Glasses with multifocal lenses of a spherical power of 10 or more dioptres but not more than 14 dioptres with a cylindrical power of not more than 6 dioptres. | 8 | £304.08 |
| 9. Glasses with prism-controlled multifocal lenses of any power or with multifocal lenses-<br>(a) of a spherical power of more than 14 dioptres with any cylindrical power;<br>(b) with a cylindrical power of more than 6 dioptres with any spherical power. | 9 | £393.58 |
| 10. Glasses with multifocal lenses-<br>(a) of a spherical power of more than 20 dioptres with any cylindrical power;<br>(b) with a cylindrical power of more than 10 dioptres with any spherical power. | 10 | £539.01 |
| 11. Glasses not falling within any of paragraphs 1 to 10 for which a prescription is given in consequence of a sight test by a Local Health Board otherwise than under an arrangement under Part 6 of the 2006 Act. | 11 | £539.01 |
| 12. Contact lenses for which a prescription is given in consequence of a sight test by a Local Health Board otherwise than under an arrangement under Part 6 of the 2006 Act. | 12 | £57.97 |

| Complex Lens Voucher | Value from 1 April 2025 |
|---|---|
| Single Vision | £15.44 |
| Bifocal | £39.56 |
| **Tints/photochromic Lens Supplement (per lens)** | |
| Single Vision | £2.11 |
| Bifocal | £2.64 |
| **Prism (per lens)** | |
| Single Vision | £12.68 |
| Bifocal | £14.80 |
| Complex Prism Supplement | Case by case basis – on application to NWSSP |
| **Small Glasses Supplement** | |
| Supplement | £67.90 |
| **Childrens supplement** | £15.86 |

Where an eligible person under 19 years of age is issued with a voucher 1 and a non-stock lens is required to improve the cosmetic appearance of the optical appliance, in relation to which the voucher will be used, which has single vision lenses of a spherical power of between 4 and 6 dioptres, with a cylindrical power of not more than 2 dioptres.

**<u>Voucher for Repair or Replacement Values from 1 April 2025</u>**

| Voucher Number | 1 lens | 2 lenses | Front of frame | Side of frame | Whole frame |
|---|---|---|---|---|---|
| **1** | 6.34 | 12.68 | 8.99 | 5.29 | 10.58 |
| **2** | 16.92 | 33.84 | 8.99 | 5.29 | 10.58 |
| **3** | 73.73 | 147.47 | 8.99 | 5.29 | 10.58 |
| **4** | 135.26 | 270.52 | 8.99 | 5.29 | 10.58 |
| **5** | 186.62 | 373.24 | 8.99 | 5.29 | 10.58 |
| **6** | 15.87 | 31.74 | 8.99 | 5.29 | 10.58 |
| **7** | 35.43 | 70.86 | 8.99 | 5.29 | 10.58 |
| **8** | 146.96 | 293.91 | 8.99 | 5.29 | 10.58 |
| **9** | 191.70 | 383.41 | 8.99 | 5.29 | 10.58 |
| **10** | 264.42 | 528.84 | 8.99 | 5.29 | 10.58 |
| **11** | 264.42 | 528.84 | 8.99 | 5.29 | 10.58 |

**Note:**

19. Where the small glasses supplement or special facial characteristics supplement applies, the amount payable for repair of:

    the front of the frame is £64.42
    the side of the frame is £32.65
    the whole of the frame is £68.05

20. Where more than one repair is made to an optical appliance, when calculating the total to be paid, the element of the voucher which relates to repairs of the frame must not exceed £14.10.